8/5.c 51

ACHOS PWYSIG

YN CAEL EI DDADLEU,

MEWN TRI O GYD-YMDDIDDANION,

RHWNG

Y Dr. Opium, Galio, a Discipulus.

A FWRIADWYD ER ARGYOEDDI

DYSGAWDWYR CYFEILIORNUS,

DYCHRYNU PECHADURIAID

DIFRAW:

A CHYNNORTHWYO DISGYBLION CRIST.

"Teilyngu o honot lewyrchu yr holl Esgobion, Offeiriaid, a Diaco-
"niaid, âg iawn wybodaeth a deall dy air; ac iddynt hwy trwy
"eu PREGETH a'u BUCHEDD, ei fynegi a'i ddangos yn
"ddyladwy."

"Teilyngu o honot ddwyn i'r ffordd wir, bawb a'r a aeth ar gyfeili-
"orn ac a dwyllwyd."

"*Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.*"

Litani Eglwys Loegr.

A gyfieithwyd i'r GYMRAEG, (allan o'r seithfed argraphiad yn *Saesneg*), er addysg i'r anwybodus.

LIVERPOOL:

Argraphwyd gan Robinson a Lang.

CYHOEDDIAD.

" Mor Gryfion ydyw geiriau uniondeb"! Job, vi. 25.

Ar y teſtyn yma o eiddo Job, *y mae'r cyd-ymddiddanion canlynol wedi eu ſylfaenu; Dull yr ymddiddanwyr a ddarlunir i'r byw yn y traethawd hyhan a ganlyn. Nid vedd gan y cyhoeddwr un amcan i daflu diyſtyrwch ar un enw o Griſt nogion proffeſedig: y mae efe yn caru pawb ſydd yn caru Criſt, ac ſy'n gofalu am gynnal ei wirionedd ef. Athrawon* YMNEILLDUAHDD, *y rhai ſydd yn ſtó eu praidd i Gyſgu, yn gyſtal a* GWEINIDOGION *Eglwyſig, a edrychir arnynt megis gwrthddrychau cymmwys o ſen a cherydd. Dros y cyfryw oll, o bob enw, y cyflwyna'r Awdwr yr erfyniadau cynhwyſfawr, ſydd yn ei arwydd-air y tu dalen cyntaf, ac a gyttuna o'i galon gyd a'r gynnulleidfa yn gyhoeddus i ddywedyd,*

" Ni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog."

*** Gan fod enwau yr ymddiddanwyr yn y Traethawd canlynol yn ddieithr i'r CYMRY uniaith, cymmerwch gan hynny y deongliad hyn o honynt.

Doctor Opium, Difinydd, neu Bregethwr cyſglyd.

Gallio, Un hollol ddifatter am grefydd. Act. xviii, 17.

Diſcipulus, Diſgybl ieuangc, yn ymofyn yn wirioneddol am Grefydd.

BRITISH MUSEUM

ACHOS PWYSIG, &c.

YR YMDDIDDAN I.

Gallio.

Borau da i chwi, y Doctor *Opium*. Mi a gymmerais fy rhyddid i ddwyn ger eich bron ŵr ieuange, yr hwn a aflonyddwyd yn ei feddyliau yn ddiweddar wrth Synfeddylio gormod ynghylch crefydd; ac megis yr ydych chwi wedi eich gwir addasu i'r fath orchwyl trwy eich dysgeidiaeth, a'ch profiad, i roddi iddo gynnorthwy, yr wyf yn gobeithio y gwnewch ddim ag a alloch tu ag at ei adferu o'i bruddder presennol.

Dr. *Opium*. Diammeu, Syr; mae'n dda gennyf eich gweled, myfi a ystyriaf yr achos gyd â'r pleser mwyaf. Mae hwn yn gyflwr gresynol yn ddiau i ddynion ieuainge gael eu dwyn iddo; nid oes un math o Bruddglwyf mor ddychrynllyd, neu mor anhawdd ei Symmud, a'r hwn sydd yn tarddu oddiwrth syn-syfyrio yn ormodol ynghylch crefydd. Mae llawer o bobl yn barnu y dylent fod mor ddoeth a'u hathrawon; ac wrth astudio 'r Bibl yn rhy ddwfn, a llyfrau crefyddol eraill, (yn enwedig y rhai hynny sy'n tueddu at rith-ysbrydolrwydd) y maent yn dyfod yn anghymwys i bob cyfeilliach. Mae'r cyfryw bethau yn rhy ddyfnion i feddyliau ieuainge, ac yn enwedig i'r rhei'ny na chawsant y ffafr o ddygiad i tynu mewn dysgeidiaeth.

Gallio. Diolch i chwi, garedig Syr, am eich parodrwydd i'n cynnorthwyo; ac nid wyf yn ammeu, na

bydd i 'r gŵr ieuangc trwy eich *cyngor iachuſol*, gael gwared o 'i ddychymygion gwâg preſennol, ac y bydd mor gyſurus ag o'r blaen.

Dr. Op. Attolwg y gŵr ieuangc eiſteddwch i lawr:— cymmerwch gadair Mr. *Galio*. Bellach, gadewch i ni gael ychydig o ymddiddan ynghyd; a pheidiwch a bod yn oſnus, eithr dywedwch eich meddwl yn rhydd. Mi a welaf eich bod yn drallodus yn eich meddwl, mae hynny yn wir yn amlwg i 'w weled yn eich wyneb-pryd. Attolwg, pa beth yw 'r achos.

Diſcipulus. Syr, yr wyf yn dra anwybodus, a chennyf ond ychydig o ddysgeidiaeth.

Dr. *Op.* Goreu yn y byd, y gŵr ieuangc. Ymgais ar ol Gwybodaeth a'ch dygodd i 'r llwybr hwn. Yr wyf yn deall eich bod yn aſtudio pethau rhy ddyfnion i chwi. Y mae'n Gofyn cyfran helaeth o ddyſgeidiaeth i ddyall creſydd. Mae'r Bibl yn llyfr anhawdd iawn yn wir ei ddyall: ac ynddo amryw bethau yn abl dyryſu 'r amgyffrediadau mwyaf: Diau, y gallaf anturio dywedyd, fod ynddo rai pethau rhy uchel i gyrhaeddiad yr Archeſgob pennaf yn y deyrnas i 'w hamlygu'n gyflawn: ac os ydyw y galluog, y doeth, a 'r dyſgedig, yn anabl i eglurhau y dirgelion hyn, nid yw yn rhyfedd eich bod chwi yn anwybodus o honynt.

Galio. Oh, Barchedig Syr! Mi a ddywedais wrtho fy hun felly yn fynych, ond ni fyn ef mo 'i reoli. Mae'n byw gyd â mi er 's llawn chwe blyneđd, a dyweđed os baeddia efe iddo fy ngweled i erioed yn darllen y *Bibl*, nac un llyfr *dwfn* arall. Mi a ddywedais wrtho os gwnaem ni ein dyledſwydd oreu ag allem, fod hynny yn ddigon: na ofyn Duw fwy gennym nac a allom ei wneuthur.

Dr. *Op.* Gwir iawn, Mr. *Galio*, ni elwir dyn byth i gyfrif am ei anwybodaeth. Chwi a ellwch glywed darllen y Bibl yn yr Eglwys bob ſul, y Gŵr ieuangc, a'ch dyledſwydd yn cael ei hegluro i chwi yn y bregeth. Nid yw Duw yn gofyn i ddynion eſgeuluſo eu galwedigaethau, a threulio eu hamſer ar y *chwe diwrnod*, i ymofyn am greſydd. Ond attolwg, y gŵr ieuangc, Pa beth yn fwyaf neillduol ſydd yn eich gwneud yn aneſmwyth?

Diſc. Yr wyf mewn trallod, Syr, ynghylch fy enaid.

Dr. *Op.* Trallod ynghylch eich enaid, y gŵr ieuange? dyna ryw beth anghyffredin yn wir. Mae'n ddigon buan i chwi feddwl am hynny. Yr ydych yn awr yn wynebu ar amgylchiad, ag y dylech feddwl ynghylch y pryd, pa fodd, ac ymha le i fetyclu yn y byd. Yr ydych chwi yn gofalu am yr enaid, ac yn esgeuluso'r corph: ni wna hynny mo'r tro, y Gŵr ieuange; mae'n rhaid i chwi gymmeryd meddwl arall.

Galio. Mi a ddywedais i chwi yr un peth yn union fy hun, oni ddarfu i mi? Efe a wyr mai hyn oedd fy ngofal gwastadol er pan yw efe yn fy adnabod. Yr wyf yn caru fy enaid yn gystadl ag ynteu, ond nid oes gennyf gyfleustra i feddwl am dano yn *bresennol*: y mae gennyf lawer o bethau eraill i'w hystyried, ac y mae'n *rhaid* i mi edrych ar eu hol.

Disc. Mae'n wir, i fy Meistr ddywedyd felly wrthyf lawer gwaith; er hynny ni's gallaf lai na bod yn drallodus ynghylch matter fy enaid: o blegid yr wyf yn ystyried y gallaf farw cyn dyfod yn rhydd o fy mhrentisiaeth, a darfod a'r byd yn dragywydd: ac os byddaf farw yn fy mhechodau, beth a ddaw o fy enaid? Gwerth fawr? (Gyd â hynny efe a dorrodd allan i wylo).

Dr. *Op.* *(Gan droi o'r neilldu at Mr.* Galio *a ddywedodd)*, Yn wir, mae'r gŵr ieuange yn bur ddrwg ei helynt; ac wedi myned ymhell iawn yn ddiammeu. Peidiwch a'ch trallodi eich hun, y Gŵr ieuange; ni raid i chwi gynnwys y fath feddyliau athrist. Mae'n ddigon buan i chwi, ymhen deg ar hugain neu ddeugain mlynedd etto, feddwl am farw. Os cynhwyswch y cyfryw syn-feddyliau, chwi ewch waeth waeth.

Disc. Yr wyf yn cydnabod, Syr, eu bod yn fy ngwneud yn bur anesmwyth; eithr yr wyf yn ystyried eilwaith, pe digwyddai i mi farw yn y cyflwr yr wyf yn awr ynddo, pa fodd y diangwn rhag y gosb ddyledus am fy mhechod? pa beth a ddeuai o honof mewn byd arall?

Galio. Dyna ei ddwndwr ef yn wastad, y Doctor, o'r boreu i'r nôs: mae efe yn ddigon ar gyrru dyn yn wallgof: Y mae efe yn ymleferydd yn ddibaid ynghylch ei enaid, a marw, a byd arall. Mi a ddywedais wrtho na

ddylai efe feddwl am y pethau hyn, efe a andwya ei ymennydd: ac yn ſicr, o ddyweud y gwir i chwi, yr wyf yn ofni y gwna efe niweid i'm teulu wrth ddadwrdd y pethau hyn wrthynt.

Dr. *Op.* Gobeithio'r goreu na's gwna, Mr. *Galio*: nid oes ammeu gennyf na wnewch chwi eich dyledſwydd, trwy ymdrechu i ddadymchwelyd y cyfryw bethau hyd y bo boſibl. Mae un mewn teulu, o'r fath duedd-fryd, yn achos o ddigon o flinder, lle mae'r fath *anffortun* wedi digwydd. Diolch i'r Arglwydd, nid oes neb o'm teulu i yn tueddu y ffordd yma; yr ydym ni oll mewn heddwch.

Diſc. Oh, Syr. Mi a ddymunwn pe byddai fy meddwl innau yn heddychol; cyfrifwn hynny yn fwy o ddedwyddwch na meddu mîl o fydoedd: ond y mae'n awr yn dra phell oddiwrth hynny; o blegid yr wyf yn meddwl yn fynych, os na chaf fy ngeni drachefn, na's gallaf weled teyrnas Dduw*.

Galio. Dyna hi byth, y Doctor; wele beth arall y mae efe yn ymleferydd yn ei gylch yn waſtadol, yr hyn beth na ddyallais i erioed: mae arno eiſiau ei eni drachefn. Pa fodd y gall hynny fod?

Dr. *Op.* Myfi a ofynnaf iddo gweſtiwn:—Attolwg, y gŵr ieuangc, a wnaethpwyd chwi erioed yn griſtion?

Diſc. Yr wyf yn ofni, Syr, nad wyf yn griſtion; a hynny yw'r peth ſydd yn fy nharllodi yn ddirfawr.

Dr. *Op.* Ddim yn *Griſtion!* Pa beth gan hynny ydych, ai *anifail?*

Diſc. Nagë; Syr; pe bawn anifail, ni byddai gennyf enaid i ofalu am dano: yr wyf yn greadur rheſymol, a chennyf yſbryd anfarwol, yr hwn a raid barhau byth; ac er hynny, yr wyf yn ofni nad wyf fi Griſtion, os wyf yn iawn ddeall beth yw yſtyr yr enw.

Dr. *Op.* Beth, ond criſtion ydyw criſtion. Pa le y ganwyd chwi?

Diſc. Ger llaw y dref yma.

Dr. *Op.* O'r goreu; fe'ch ganwyd felly mewn gwlâd

* Ioan, iii. 3.

Grift'nogol; ac mi a ofynais i chwi o'r blaen a fedyddiwyd chwi erioed?

Difc. Ni ddeallais mo honoch, Syr; fe'm bedyddiwyd yn yr Eglwys, ac y mae fy nhadau bedydd a mam fedydd yn awr yn fyw.

Dr. *Op.* A gawfoch chwi erioed fedydd Efgob?

Difc. Do, Syr, pan oeddwn ynghylch deuddeng mlwydd oed; ond ni's gwn a wnaethpwyd fi 'n griftion trwy'r naill na'r llall o'r feremoniau hyn.

Dr. *Op.* Seremoniau, y gŵr ieuange! Peidiwch a chyfrif pethau o'r fath hyn yn yfgafn, yr wyf yn attolwg i chwi; ni allaf oddef y fath gabledd. Mi a debygwn i chwi anghofio eich Cateciſm, neu ni ddywedech fel hyn. Oni wnaethpwyd chwi trwy fedydd, "yn aelod i Grift, "yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd teyrnas nefoedd"? Mae y rhai'n yn rhagorfreintiau mawr yn ddiau! onid ydynt?

Difc. Yr wyf yn addef, Syr, i mi trwy fedydd gael fy nerbyn yn allanol a thrwy broffes i Eglwys weledig Crift, ond y mae arnaf eifiau bod yn griftion *tu fewnol*; o blegid fe ddywaid yr yfgrythyr*, *Nad yr hwn fydd yn yr amlwg fydd Iuddew: ac nid enwaediad yw yr hyn fydd yn yr amlwg, yn y cnawd: eithr yr hwn fydd yn y dirgel fydd Iuddew; ac enwaediad y galon fydd yn yr yfbryd, nid yn y llythyren.*

Galio. Gwared ni! Peidiwch a bod mor ynfyd. Mi a ddywedais wrthych fod y pethau hynny yn rhy uchel i chwi o ganwaith, ac etto ni fynwch beidio a'u dilyn hwynt; ac yn awr chwi a welwch y niweid mawr a fu hynny i chwi; yr ydych allan o'ch pwyll.

Difc. Mi a fynwn gan Dduw fod yn fy iawn bwyll; mi a fum yn wall-gofus yn rhy hîr, ond hynny a fu trwy anwybodaeth. Arglwydd, beth a wnaf i fod yn gadwedig?

Galio. A glywch chwi, 'r Doctor, dyna beth arall o'i ddadwrdd ynfyd ef! y mae efe yn gweiddi yn fynych, "Pa beth a wnaf i fod yn gadwedig"? pan nad oes un perygl yn agos atto, nac un peth yn debyg o'i niweidio. Mae'n ddrwg iawn gennyf i mi ddwyn ei fath ger eich

* Rhuf. ii. 28. 29.

bron i 'ch blino, o blegid y mae efe yn ymddangos yn anfeddyginiaethol; am hynny nyni a awn ymaith. *Bedlam* yw'r lle cymhwyſaf iddo ef.

Dr. *Op.* Peidiwch a bod yn rhy bryſur, Mr. *Galio*, nid wyf fi yn anobeithiol o'r gŵr ieuangc; yſgatfydd efe a wrendu reſwm, ac a gymmer ei breſwadio i adael y meddyliau trymllyd hyn. Attolwg, y gŵr ieuangc, a ydych yn credu yr yſgrythyrau?

Diſc. Ydwyf, Syr; yr wyf yn credu mai gair Duw yw'r yſgrythyrau, ond yr wyf yn ofni nad oes gennyf *wîr* ffydd. Mae angen arnaf fod yn gredadyn, ac yna ni amheuwn na achubid fi, gan fod Criſt yn dywedyd, *Y neb a gredo a fydd gadwedig.*

Dr. *Op.* Y gŵr ieuangc, mi a ddywedaf unwaith etto, nid rhaid i chwi ymyrraeth a'r cyfryw bethau dyfnion; gallaf ddywedyd i chwi fod gennych ddigon o ffydd: gwnewch chwi eich dyledſwydd, yr hyn ydyw ofni Duw, a chadw ei orchymynion; hyn yw holl ddyledſwydd dyn.

Diſc. Nid yw yn ymddangos fod hyn yn cyttuno â'r hyn a ddarllenais i neithiwr, yn llyfr gweddi gyffredin, ym myſg eraill o Erthyglau yr Eglwys, hyd yr wyf yn gofio, un o honynt a ddywaid fel hyn, "Fe'n cyfrifir yn "gyfiawn ger bron Duw, yn unig er mwyn haeddedi-"gaethau ein Harglwydd a'n Hachubwr Ieſu Criſt, trwy "ffydd, ac nid o herwydd ein gweithredoedd neu ein haed-"diant ein hunain". Yr wyf fi 'n caſglu, os oedd hynny yn wir, yna fod yn rhaid i mi fod yn gadwedig trwy *ffydd.*

Dr. *Op.* A wyddoch chwi er's pa gymmaint o amſer y gwnaethpwyd yr Erthyglau hynny? Cyn geni eich hen-daid, yn ddiammeu: a ydych chwi ddim yn meddwl nad yw dynion yn ddoethach yn awr na'r pryd hynny. Er ein bod ni yn rhwym wrth ein ſwydd i ddodi ein dwylaw wrthynt, ac i weddio yn y geiriau a gyfanſoddwyd i ni gan y diwygwyr hynny, ond etto y mae ein pregethau ni yn dangos yn amlwg, nad ydym ni yn gwneud cyfrif yn y byd o honynt; yr ydym yn edrych arnynt fel hen Almanac.

Diſc. Mi a feddyliais felly lawer gwaith, ac a ryfeddais

yr anghyſondeb wyf yn ei glywed rhwng y Gwaſanaeth a'r bregeth; a thueddwyd fi i farnu yn hollol na's gallant fod *ill dau* yn iawn: mae'r *Gwaſanaeth* yn cadarnhâu mai trwy *ffydd* y'n achubir, a'r *pulpud* mai trwy *weithredoedd*. Mae hyn yn peri i mi benderfynu yr âf fi i wrando i ryw leoedd eraill o addoliad cyhoeddus, fel os bydd poſibl y gallwyf ddyſgu pa un yw y wir flordd.

Galio. Dywedwch y cyfan i'r Doctor ynghylch hynny: ac os na wnewch chwi, myfi a wnaf; fel na chaffo mo'i dwyllo ynoch. Y Doctor! mae efe wedi troi yn *Fethodiſt*, dyna'r gwir am dano ef.

Dr. *Op.* Oh, Ho! Dyna egluro'r matter ar unwaith: nid wyf yn rhyfeddu eich cyflwr preſennol ei fod fel y mae. Yr wyf yn rhyfeddu eich bod yn fyw, y gŵr ieuangc; na buaſech wedi gwneud eich diben eich hun cyn hyn. Ymaith â'r cyfryw gymdeithion! nid ydynt gymmwys i fyw; y maent yn aflonyddu'r byd. Oh, na fynnai'r Arglwydd i'n Goruchel benaethiaid oſod allan ryw Gyfreithiau i'w coſbi hwynt; ac os oes poſibl, eu diwreiddio hwynt oddi ar y ddaear. Nid oes neb a all ddywedyd y niweid y maent yn ei wneud ym myſg dynion.

Diſc. Os dyna eu hymddygiad, a'r gwir ddarluniad o honynt, myfi a gam-gymmerais yr enw. Attolwg, Syr, beth yw *Methodiſt?*

Dr. *Op.* *Methodiſt!* fe ŵyr pawb pa beth yw *Methodiſt*. Mi a ddywedais eu cynneddfau hwynt i chwi o'r blaen: nid oes gennyf help yn y byd, mae fy ngwaed yn codi yn fy wyneb pan feddyliwyf, neu y ſoniwyf am danynt: ni's gallaf eu goddef hwynt.

Diſc. Yr wyf yn gobeithio, Syr, na thramgwyddais mo honoch; nid fy amcan oedd hynny: mi a ofynais y cweſtiwn yn fyml er mwyn cael fy addyſgu, gan feddwl y gallwn gam-gymmeryd; canys yr athrawiaethau wyf fi yn glywed eu pregethu yn y Capel y byddaf arferol o wrando, ydynt gyttuhol a'r namyn un deugain Erthyglau ein Heglwys, pa rai ſydd yn goſod allan fod dynolryw wedi eu dinyſtrio eu hunain trwy bechod, ac mai trwy ffydd yn unig yn yr Arglwydd Ieſu Grift y gallant gael eu hadferu;——fod yn rhaid i ni oll gael ein geni drachefn;—

ac edifarhâu;——a bod yn rhaid i ni gredu yng Nghrift, nen na allwn fod yn gadwedig. Y pregethiad yma a gafodd effaith neillduol ar fy meddwl.

Dr. *Op.* Fe allai iddo effeithio arnoch chwi; mae'r cyfryw bethau dyfnion yn ddigon ar eich gwall-gofi. Ond attolwg, a fyddant hwy yn dywedyd dim ynghylch gweithredoedd da? A fyddwch chwi yn fylwi ar hynny ym myfg pethau eraill? A fyddant yn dywedyd wrthych am ofni Duw, a chadw ei orchymynion?

Difc. Yr oeddwn yn myned i hyfbyfu i chwi, Syr. Maent yn chwanegu, mai geni drachefn, yw hollol gyfnewid y galon a'r fuchedd. Mai gwir edifarhâu, yw triftau yn dduwiol ám bechod, ac y mae'n cydfyned ag ef yn waftad ymadawiad â phechod. Mai credu yn yr Arglwydd Iefu Grift, yw credu athrawiaeth yr Efengyl mewn perthynas i Grift, a'r iachawdwriaeth trwyddo ef; ac ymddiried ynddo ef yn unig am iachawdwriaeth. Bod y ffydd hon yn ei phrofi ei hun yn wirioneddol trwy gariad at Dduw a'n cymmydog; a'i bod yn puro'r galon, ac yn dwyn ffrwyth gweithredoedd da, i ogoniant Duw, a llesâd dynolryw; o blegid heb fancteiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd: hefyd——

Dr. *Op.* Nid ydynt yn pregethu dim o'r fath bethau; y maent yn gwadu gweithredoedd da, mi a glywais felly am danynt ganwaith: nid ydynt yn pregethu dim ond *ffydd*; myfi a'i gwn.

Galio, Peidiwch a gwrthwynebu y Doctor yn ei dŷ ei hun; yr wyf yn Sier y gŵyr efe amgenach pethau na chwi.

[Ar hynny, daeth gwas y Doctor i mewn â'r genadwri ganlynol i'w Feiftr:——Mae'r Doctor *Tafodlyfn* â'r Athraw *Mafweddgar* yn anfon eu hanherchiad attoch, ac y maent yn difgwyl am danoch i fyned gyd â hwynt i Giniawa i dŷ'r Efgweier *Gwaftraff.*]

Dr. *Op.* Fy annerch attynt yn garedig; byddaf at eu gwafanaeth allan o law. Yn awr, Mr. *Galio,* rhaid i chwi â'r gŵr ieuange fy efguíodi, megis yr wyf yn penderfynu er dim na chaiff ciniaw byth aros wrthyf; felly mi a ddymunaf i chwi brydnhawn da; ond mi a roddaf i'r

gŵr ieuangc fenthyg y llyfr goreu yn y byd i'w ddarllain, a da fydd gennyf ei weled ef bryd arall pan fo gennyf gyfleuſtra. Llyfr Holl Ddyledſwydd Dyn (ſef y newydd) ydyw; mi a redaf i'm llyfr-gell i'w gyraedd ef i chwi.

Galio. Nid rhaid i chwi eich blino eich hun, y Doctor, y mae efe gennyf fi gartref; fy nhâd a'i gadawodd ef i mi yn ei ewyllys, er na chefais erioed gyfleuſtra i'w ddarllain. Chwi a'i gwelſoch ef, *Diſcipulus*, mae'n debyg yn fy nhŷ.

Diſc. Ni's gallaf alw i gôf i mi weled *Holl* Ddyledſwydd Dyn erioed yn eich tŷ.

Galio. Y mae efe yno mi a wn er na's gwelodd efe ef, ac efe a gaiff ei ddarllen ef, ac yn ol hynny dyfod o'ch blaen drachefn. Prydnhawn da i chwi, Syr, a diolch yn fawr i chwi.

Dr. *Op.* Dydd da i chwithau Fonheddigion. Ond gwrandewch y gŵr ieuangc! A fyddwch chwi yn ſiwr o ddyfod i'r Cymmun y boreu ſul neſaf, yn yr Eglwys?

Diſc. Yr wyf yn ofni fod fy meddwl yn rhy derfyſglyd i dderbyn y fath ordeinhâd ſanctaidd.

Dr. *Op.* Ffei, Ffei! rhy derfyſglyd! Dyna'r unig beth yn y byd i'ch tawelu. Gwnaeth filoedd yn eſmwyth oedd cynddrwg a chwithau. A adwaenech chwi, Mr. *Galio*, un *Cruſto* feddw, oedd yn byw yn Nhafarn y gloddeſt?

Galio. Adwaenwn or goreu; Wfft i'w fath!

Dr. *Op.* Y diwrnod cyn ei farw, yr oedd efe yn ymleferydd ynghylch ei enaid, yn debyg i'r gŵr ieuangc yma, a llawer o bethau dychrynllyd oedd yn llanw ei feddyliau; felly ei wraig druan a ddanfonodd am danaf: mi a roddais iddo y cymmun; ac er iddo fyw ar ol hynny bedair awr ar hugain, ac yn Gyflawn yn ei ſynhwyrau hyd ei ddiwedd, etto ni chrybwyllodd efe gymmaint ag unwaith am ei enaid yn ol hynny. Felly nac ofnwch, y gŵr ieuangc. Mae fy nghyfeillion yn aneſmwyth, am hynny rhaid i mi bryſuro ymaith. Dydd da i chwi.

YR II. YMDDIDDAN.

Diſcipulus.

Gyd â'ch cennad, Syr. Mi a gymmerais fy rhyddid i ddyfod o'ch blaen drachefn, i gael ychydig yn rhagor o'ch cyngor, mewn perthynas i'm cyflwr trallodus.

Dr. *Op.* Pa beth, a'i trallodus ydych etto, y gŵr ieuangc? A ddarllennaſoch y llyfr rhagorol a erchais i chwi, wrth ymadael a chwi y dydd arall?

Diſc. Do, Syr, mi a'i darllennais ef yn ofalus droſto.

Dr. *Op.* Hynod iawn! Ac ddim yn eſmwyth etto yn eich meddwl! Beth, mae hynny yn rhyfedd iawn yn wir. Fe wnaeth y llyfr hwn ryfeddodau drwy eſmwythhâu meddyliau amryw oedd yn debyg i chwithau.

Diſc. Nid yw yn ymddangos ei fod yn egluro fy nghyflwr i.

Dr. *Op.* Ddim yn egluro eich cyflwr! Pa fodd felly, yr ydych yn drallodus am na wnaethech eich dyledſwydd, ac y mae'r llyfr hwnnw yn mynegi i chwi pa fodd i'w gwneuthur.

Diſc. Oh, Syr! Mae fy nghyflwr i tu hwynt i unrhyw ddarluniad a rydd y llyfr hwnnw o bechaduriaid; y mae'n fwy dychrynllyd o lawer.

Dr. *Op.* Mae'n ddrwg gennyf hynny yn wîr, y gŵr ieuangc; ni ddyallais i pan fuom yn ymddiddan o'r blaen, eich bod cynddrwg.

Diſc. O ydwyf, Syr, Yr wyf y pennaf o bechaduriaid; nid oes un gorchymyn ar na's torrais.

Dr. *Op.* Gwarchod pawb! y gŵr ieuangc, a dorraſoch chwi yr holl orchymynion; a ydych yn llofrudd, lleidr, a godinebwr? Cymmerwch ofal beth ydych yn ei ddywedyd; fe'ch cymmerir i fynu, ac fe'ch crogir yn ddilai.

Diſc. Nid fy meddwl yw, Syr, ddarfod i mi yn weithredol wneud felly; ond mi a dorrais bob un o honynt, yn ol eſboniad ein Iachawdwr arnynt yn y bumed bennod o *Mathew*, lle y mae efe yn dywedyd, fod

digio yn llofruddiaeth; a chwennychiad yn odineb. Y pechodau ſydd fwyaf o ofid i mi, yw *pechodau y galon.*

Dr. *Op.* Pechodau y galon! pechodau y galon! Ymhell y byddwyf, os clywais i erioed mo'r enw o'r blaen: mi a wlywais am bob math o bechodau, eithr erioed ni chlywais am bechodau y galon. Nid oes dim o'r fath beth yn bod, gyŵr ieuangc; nid ydych ddim yn dyall pa beth yr ydych yn ei ddywedyd.

Diſc. Och, Syr! Yr wyf yn dra ſicr eu bod trwy 'r profiad mwyaf alaethus.

Dr. *Op.* Pechodau y galon, a ddywedaſoch. Y mae gennyf y Geir-lyfr goreu ſy'n bod, ac mi a'i chwiliaf ef ger eich bron: os oes y fath bechodau yn bod, nyni a gawn ddarluniad o honynt yno. [*Yna efe a chwiliodd ei eir-lyfr.*] Pechodau y galon *ebe efe*; nid oes dim o'r cyfryw ymadroddion yma: mae efe yn ſon am *eſmwythdra'r galon,** yr hwn medd y geir-lyfr ſydd flodeuyn tra chywrain.

Diſc. Nid fiarad am flodeu yr ydwyf, Syr, eithr am chwŷn niweidiol, pa rai ſy'n attal cynnydd ffrwythau gwell. Och! fy *ngbalon ſydd fwy ei thwyll na dim, drŵg diobaitb ydyw*[1].

Dr. *Op.* Hynod iawn! mwy ei thwyll na dim, a drŵg ddiobaith! Arſwydus y fath galon ddrŵy ſydd gennych!

Diſc. Gwir, Syr, *holl feddylfryd ſy nghalon ſydd ddrygionus bob amſer*[2].

Dr. *Op.* Ofnadwy'r fath beth!

Diſc. Myfi a gyfeiliornais oddi wrth Dduw o'r Groth[3]. Ffolineb ſy'n rhwym yn fy nghalon[4]. Mae bryd fy nghalon yn ddrygionus o'm hieuenctid[5]. Y da yr hwn wyf yn ei ewyllyſio nid wyf yn ei wneuthur, ond y drŵg yr hwn nid wyf yn ei ewyllyſio, hynny yr wyf yn ei wneuthur. Mi a wn nad oes dim da yn trigo ynof[6].

* Heart's Eaſe.

1 Jer. xvii. 9, 6. 2 Gen. vi. 5. 3 Sal. lviii. 3. 4 Diar. xxii. 15. 5 Gen. viii. 21. 6 Rhuf. vi. 19, 20.

Dr. *Op.* Yr anwyl a fo'n gwarchod, y gŵr ieuange, yr ydych yn peri i mi fynnu! Mi a debygwn eich bod cyn-ddrwg a'r diafol; nid ydych gymmwys i fyw ym mhlith crift'nogion.

Diſc. Yn wir, Syr, nid ydwyf: yr wyf yn ddaearol, yn gnawdol, ac yn ddieflig[7]. Myfi a ddirmygais bob dwyfol berffeithrwydd; yr wyf dan felldith cyfraith ſanctaidd Duw[8]; yn ddamniol eiſloes megis anghredadyn[9]; bobl munud yn agored i ddigofaint a dialedd y Duw y pechais i'w erbyn; ac os na bydd i drugaredd, ie anrhaethol drugaredd ragflaenu, fe'm coſbir â thrag'wyddol ddiſtryw oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddi wrth ogoniant ei gadernid ef[10].

Dr. *Op.* Yr ydych wrth hynny yn waeth na *Chain*; ie hyd yn oed yn waeth na *Suddas*, yr hwn a fradychodd ein Iachawdwr. Nid oedd un o'r rhei'ny cyn-ddrwg a chwi.

Diſc. Yr ydwyf yn wir ddrygionus. Yr wyf yn fy ffieiddio fy hun, a theimlad o'r pethau hyn a'm gyrrai i eithaf anobaith, oni bai fod y *Bibl* yn goſod allan mai'r cyflwr a grybwyllais uchod, yw ſtâd pawb wrth nattur. St. *Paul* a ddywaid[11], *Nid oes neb cyfiawn, nac oes un: nid oes neb yn deall; nid oes neb yn ceiſio Duw. Gŵyraſant oll, aethant i gyd yn anfuddiol; nid oes yn gwneuthur daioni nac oes un.* Nyni a aethom oll ar gyfeiliorn allan o ffyrdd Duw fel defaid ar gyfrgoll, ac nid oes iechyd ynnom.

Dr. *Op.* Ie, ïe; felly y mae gwaſanaeth ein heglwys yn dywedyd, ac yr ydym yn chwanegu, *Arglwydd trugarha wrthym wîr bechaduriaid*; eithr mi a ddywedais i chwi o'r blaen, fod ein pregethiad yn profi yn amlwg nad ydym ni yn credu mo'r pethau hyn. Nad elwyf fyth i gael drŵg, y gŵr ieuange, pe byddai i mi, neu fy Nghurad, bregethu y ſath athrawiaethau a'r rhai'n, nyni a dramgwyddem yr holl blwyf. Braidd na feddyliwn y byddai i'r Eſgweier gymmeryd y traed a dïange o'r Eglwys, a'r rhan fwyaf o'n gwrandawyr hefyd. Yr hen *Forgan* y clochydd, a

7 Jago, iii. 15. 8 Gal. iii. 10. 9 Ioan, iii. 18. 10 2. Thef. i. 7, 9.
11 Rhuf. iii. 10, 11, 12.

minnau a fyddai raid gyflawni y ddyledſwydd ein hunain. Ond, moliant i'r gŵr goreu, yr wyf yn credu fod y byffredinolrwydd o'm plwyfolion yn dra goneſt, ac yn bobl dda. Y maent yn dyfod i'r eglwys mor fynych ag y gallont, a phur anfynych y maent yn abſennol o'r cymmun. Nid ydynt debyg i chwi, y gŵr ieuangc; nag ydynt, diolch i'r Arglwydd, nid oes ganddynt y fath galonnau, ac nid ydynt yn byw y cyfryw fucheddau. Chwiliwch y plwyf trwyddo, ac ni chewch gymmaint ac un, a ŵyr ddim yn y byd am *hechodau y galon*: y maent yn bobl dra chrefyddol, hyd eithaf eu gwybodaeth.

Diſc. Pe gwelai Duw yn dda ddyfod a hwy i adnabod eu calonnau eu hunain, ni byddant fyw fel y maent; o blegid yn wir, Syr, mae amryw o bobl bur annuwiol yn eich plwyf.

Dr. *Op.* Pa beth! Profwch eich geiriau, y gŵr ieuangc, peidiwch a dûo enwau gwŷr da; cymmerwch ofal pa beth a ddywedoch.

Diſc. Syr, nid wyf yn dywedyd hyn i fy eſguſodi fy hun, nac i'w niweidio hwythau; ond yn unig i'ch argyoeddi nad yw eich plwyf yn gwbl mor berffaith ag yr ydych yn meddwl.

Dr. *Op.* Pa le y canfyddwch y fath rai yn fy mhlwyf i? Nodwch hwynt allan.

Diſc. Beth am yr Eſeweien *Trais*. Uſtus yr heddwch, ſydd dra gorthrymus i'w ddeiliaid tlodion, a chwi a wyddoch, Syr, y twng eſe bron ar ben pob chewedl. A pheth am *Sion ddiriaid* ei gerbydwr, yr hwn ſydd gydymaith trythyll tra drygionus. Un o'ch plwyfolion ydyw Mr. *Meddwyn* y Tafarnwr, yr hwn oni edrychir atto yn fanwl, a rydd ddau i lawr yn lle un, ac a gynnwys loddeſta yn ei dŷ ddydd ſul o ben bwygilydd. Beth a ddywedwch am yr hen *Forgan*, eich Clochydd, anfynych yr â eſe i gladdedigaeth na bydd yn dyfod adref yn chwilgorn ſeddw. Myfi a'i gwelais ef lawer gwaith yn hongcian wrth y bedd, ac braidd yn gallu dywedyd Amen. Ac yntau hefyd *Goronwy*, hen gloddiwr y beddau, a fydd yn gyffredin yn tyngu ac yn rhegi, wrth dorri'r beddau, a rhoi pridd ar y cyrph: gallwn enwi llawer yn rhagor o'r fath, pe byddai achos.

Dr. *Op.* Fe allai eu bod felly; beth er hynny, fe fyddai yn anaddas iawn i mi ymrafaelio â fy mhlwyf am y cyfryw bethau. Attolwg pa le y gwelwch Eſcweier na thwng weithiau, neu Glochydd na bo'n caru llymmaid o ddiod. Yr ydych chwi yn rhy ſanwl, y gŵr ieuangc. Ni welwch ond ychydig, os gwelwch yr un yn well na fy mhlwyf innau: ac ni byddwch yn clywed y Bugeiliaid yn ymrafaelio a'u praidd mwy na *minnau*.——Yn gymmaint na wnaeth y llyfr a gyflwynais i chwi y lleſâd a ddiſgwyliais, mi a roddaf i chwi gyngor arall, y gŵr ieuangc:—Ymroddwch i ganlyn cwmpeini da, digrif, a llawen, a chwareu cardiau yn ddiniweid, ynghyd â chaniadau digrifol, ac felly ymlaen. Mae gwyliau y *Nadolig* yn agos, chwi a gewch gyfleuſtra i'ch difyrru eich hun; trwy hyn, ynghyd a bendith yr Arglwydd, yr wyf yn gobeithio y byddwch yn well.

Diſc. Byddai arnaf arſwyd digio Duw, wrth ofyn ei fendith ar *chwareu cardiau*, neu'r *cyfryw ddifyrrwch gwâg* a erchaſoch imi, ac yr wyf yn penderfynu na bydd i mi byth o hyn allan ymroddi i unrhyw beth, ond yr hyn y gallwyf yn rheſymol ofyn, a diſgwyl bendith Duw arno.

Y III. YMDDIDDAN.

Dr. *Opium.*

Mae 'n dda gennyf eich gweled, y gŵr ieuangc, yr ydych yn edrych yn fwy ſiriol y boreu yma nag y byddech, yr wyf yn gobeithio eich bod o lawer yn well. Chwi a gollaſoch eich gwâg ddychymygion ynghylch *pechodau y galon* yr awron mi debygwn. Mae 'n ymddangos fod gwyliau llawen wedi dwyn i mewn flwyddyn newydd happus.

Diſc. Yn wir, Syr, mae gennyf achos mawr i fendithio Duw, yr wyf yn llawer eſmwythach yn fy meddwl nag oeddwn; ond y mae fy marn am drueni dyn mor gryf ag erioed.

Dr. *Op.* O'r goreu: chwi a ymadewch â'r holl feddyliau athriſt hynny yn raddol: Moliant i'r gŵr goreu yr

ydych yn well: yr wyf yn gobeithio na bu fy nghyngor yn ofer. Myfi a debygwn i chwi daro wrth ryw gwmpeini llawen, a difyrru eich hun â rhyw ddigrifwch, er pan gwelais chwi o'r blaen.

Difc. Na ddo, Syr, ni's gallaf ymroddi i'r pethau hyn gyd â hyfrydwch. Ni tharddodd fy heddwch preſennol oddiwrth gardiau a chwmpeini, eithr oddi wrth amlygiad o gariad maddeuol Duw, yn yr anwyl Waredwr. Difyrwch yuſydion yn y gwyliau a ochelais, megis pethau anweddus i Griſtion un amſer; pa faint mwy, pan oedd gwyl genedigaeth ein Iachawdwr ſanctaidd yn cael ei gadw. Pob cyfleu oedd gennyf, a ddefnyddiais mewn ffordd fwy rheſymol.

Dr. *Op.* Beth ynte, a fuoch chwi yn y cymmun?

Difc. Na ddo, Syr, ni feiddiais neſau at fwrdd yr Arglwydd, rhag y byddai i mi fwytta ac yfed yn anheilwng. Eithr Gweinidog tra defnyddiol yn y gym'dogaeth, yn rhyw fodd a glywodd am fy amgylchiad, ac a'm gwahoddodd i ddyfod i ymweled ag ef, derbyniais ei gynhygiad yn llawen; efe a ddyallodd fy nghyflwr yn fuan; fe wyddai hwnnw beth oedd *pechodau y galon*: a phan agorais fy meddwl yn rhydd iddo ef, canfum ddagreu yn llenwi ei lygaid, meddyliais ar y cyntaf eu bod yn tarddu oddi ar alarus foriant o'r olwg oedd ganddo ar fy nghyflwr truenus i; ond yn ebrwydd clywn ef yn diolch i Dduw, am y cyfnewidiad a wnaethai efe ar fy nghalon. Yna y dyallais fod ei ddagrau, yn ddagrau o lawenydd, am ddaioni 'r Arglwydd tu ag attaf. Aeth i weddio gyd â mi, a gweddiodd yn dra ſerchiadol drofof yn wir; yn ol hynny ymddiddanodd â mi mor hyfryd o'r yſgrythyrau, fel y cefais y tro cyntaf beth gobaith. Mi a welais, er fy mod yn golledig, ddyfod Ieſu Griſt i geiſio ac i gadw y cyfryw oedd wedi eu colli. Er fy mod y pennaf o bechaduriaid, er hynny, ddyfod Criſt i'r byd i achub pechaduriaid: ac er fy mod yn wan, etto y gall Criſt fy nghynnorthwyo, ac er nad oes gennyf ddim i haeddu iachawdwriaeth, etto fod iachawdwriaeth yr efengyl yn cael ei chynnyg i mi heb arian ac heb werth. Y pethau hyn a

roddaſant i mi beth gobaith, a mi a ddywedais, pwy a ŵyr na achub Ieſu Griſt fi?

Dr. *Op.* Och, Oh, druan! Un o'r rhai rhîth yſbrydol yw y gŵr hwnnw o'r gwraidd, pwy bynnag ydyw. Attolwg, pa le y mae efe yn byw?

Diſc. Ei enw yw *Efengylwr*; y mae efe yn byw yn—

Dr. *Op.* Mi a'i hadwaen ef wrth ei enw; cyſtal Methodiſt yw efe ag a droediodd y ddaear erioed. Y mae efe yn hynod am yrru pobl o'u côf: bu amryw gydâ mi, a gafodd niweid i'w meddyliau oddi wrtho; ond moliant i'r Gorucha', yr wyf yn credu iddynt fyned ymaith oll yn bur eſmwyth. Mae'r cydymaith hwnnw yn haeddu cael ei anfon i'r carchar. Mi a glywais ei fod ef yn bwriadu dyfod i fy mhlwyf i; ac os daw efe, mi a rô'f fy ngair i chwi y diſodlaf ef ar unwaith, ni chaiff neb o fy mhlwyf i fyned i wrando arno; ac yr wyf yn ſicr y trŷ 'r Eſcweier *Trais* bob un o'i ddeiliaid allan, a phob gweithiwr hefyd, ag a ddelo mewn cyrraedd i'w leferydd ef. A ddywedaſoch wrtho eich bod gyd â mi?

Diſc. Do, Syr; mi a ddywedais pa mor dirion a fuaſech imi, a darfod i chwi erchi i mi ddarllain y llyfr a elwir, Holl Ddyledſwydd Dyn ſef y *newydd*; ac i chwi fy nghynghori i fyned i gwmpeini llawen, a chymmeryd y cymmun, tu ag at fod yn eſmwyth yn fy yſbrydoedd.

Dr. *Op.* Attolwg, beth a ddywedodd efe wrth hynny?

Diſc. Fe yſgydwodd ei ben, a meddwl yr oeddwn ei fod yn ymddangos fel un yn ymoſidio troſwyf. Gofynnodd i mi, a fuaſai eich cyfeilliach o ryw leſâd i mi: dywedais wrtho nad oeddych yn ymddangos fel un yn adnabod fy nghyflwr; ac i chwi lâs-wenu pan ſoniais wrthych am *bechodau y galon*; ac i chwi chwilio'r *Geir-lyfr* am danynt, a nethu eu cael.

Dr. *Op.* Attolwg, a gafodd efe hwynt yn ei Eir-lyfr *ef*?

Diſc. Nid yno yr aeth efe i chwilio am danynt. Efe a fylwiodd, nad oedd achos i bechadur wedi ei oleuo ymoſyn a Geir-lyfrau am bechodau y galon: y lle priodol yw canfod hwynt ſydd yn nrŷch cyfraith Duw pa un ſy'n goſod

allan, fod bwriad y ffôl yn bechod*. Ac efe a ſylwiodd ymhellach, fod pob awr o'n bywyd yn profi yn rhy eglur eu bod. Yna efe a gynhygiodd roddi benthyg llyfr i mi, a elwir CYFLAWN DDYLEDSWYDD DYN†, i'w ddarllain, gan ddywedyd y byddai efe o ddefnydd i mi.

Dr. *Op.* Chwi a welwch ynte, ein bod o'r un feddwl yn cyflwyno Holl Ddyledſwydd Dyn i chwi.

Diſc. Oeddych, Syr, felly y dywedais wrtho, ac a adroddais iddo nad oedd efe yn perthynu i fy nghyflwr. Attebodd ynteu, fod dau lyfr agos o'r un enw; y naill yn rhagorol dda, a'r llall yn dra chyfeiliornus.

Dr. *Op.* Attolwg, y gŵr ieuange, pa fai ydych chwi yn ei weled yn y llyfr rhagorol hwnnw, pa un a argraphwyd bum gwaith ar hugain ac ſydd bron ymmhob tŷ yn y deyrnas.

Diſc. Mi a ddywedaf i chwi, Syr, mae efe yn addaw yn ei du dalen cyntaf, a'i ragymadrodd, egluro beth yw *ffydd* yn gyſtal ag *ymarferiad* criſtion. Mae'r Awdwr yn beïo ar yr *Hên* Holl Ddyledſwydd Dyn, am ei fod ef i gyd ynghylch moeſoldeb, ac nad yw yn egluro nattur *ffydd* fel y dylai.

Dr. *Op.* O'r goreu; onid yw Holl Ddyledſwydd Dyn, ſef y *newydd* yn traethu am ffydd?

Diſc. Ydyw, Syr, eithr mewn dyll gamſyniol iawn yn ol fy meddwl i; o blegid yn y 10 fed tu dalen o hono y dywaid yr Awdwr, "Fod Duw wedi myned i gyfammod "newydd, mewn trefn i feddyginiaethu yr hyn a aeth "heibio trwy'r cwymp, ag nad oedd boſibl ei adgyweirio; "yr hwn gyfammod, fel y gellir caſglu'n gyflawn oddi "wrth yn efengyl, oedd i'r perwyl yma:——Sef y byddai "i ddyn ar yr *ammod* o'i *ffydd* ddiſigl, difrifol edifeirwch, "a *pherffaith* ufudd-dod, gael ei adferu, trwy Grift, i "ffafr Duw; ac yn ol angeu, i'r bywyd a'r dedwyddwch "hwnnw ag oedd addewedig i'n rhieni cyntaf, heb brofi "marwolaeth. A'r ammod ar ran Duw, ſef maddeuaut

* Diar. xxiv 9.

† Mae'r llyfr rhagorol hwnnw yn atteb i'w enw yn dda, ac yn deilwng o ſylw difrifol pob un ſy'n ymofyn am y gwirioneddau.

" pechodau, ſydd yn waſtadol yn barod i'w gyflawni, os
" na phallwn ni ar ein rhan ninnau o fod yn wir edifeiriol,
" a gwellâu ein bucheddau. Ein Iachawdwr a wnaeth gy-
" flawn, berffaith, â digonol aberth, offrwm ac iawn dros
" bechodau'r holl fyd; efe a ddyoddefodd farwolaeth
" greulon, waradwyddus ar y groes er ein mwyn ni; a
" thrwy ei angau a'i ddyoddefaint a bwicafodd y grâs
" hwn i ni, fel y byddai i edifeirwch *gwirioneddol*, ac
" ufudd-dod *difrifol*, fod yn gymmeradwy yn lle dini-
" weidrwydd".

Dr. *Op.* Onid yw hon yn burion athrawiaeth? dyna'r peth wyf fi yn ei bregethu holl yſtod fy mywyd.

Diſc. O, Syr! os yw fy iachawdwriaeth yn ymddibynu ar *berffaith* ufudd-dod, gwae fi! o blegid " Ni allaf
" weddio, nad wyf yn pechu; ni allaf wrando pregeth,
" na byddwyf yn pechu; ni allaf roddi elufen, neu dder-
" byn y ſacrament, nad wyf yn pechu: nagê, ni allaf
" gymmaint a chyſaddef fy mhechodau, na byddo fy
" ngwîr gyſaddefiadau yn waſtadol yn eu chwanegu
" hwynt; mae ar fy edifeirwch eiſiau edifarhâu o'i blegid:
" mae ar fy nagrau eiſiau golchiad, ac ar olchiad fy nagrau
" eiſiau yn waſtadol eu golchi â gwaed fy Mhrynwr".

Dr. *Op.* Aroſwch, aroſwch, y gŵr ieuangc; yr ydych yn nyned yn rhŷ bell.

Diſc. Ail adrodd yr wyf fi, Syr, wir eiriau yr Eſgob *Beveridge*.

Dr. *Op.* Mae'r Awdwr hwnnw, (os darfu i chwi ſylwi) yn union ar ol hynny, yn dywedyd, mai nid ufudd-dod perffaith dibechod yw gofyniad cyfammod yr efengyl, eithr difrifol ymdrechiad i ufudd-hâu i'r holl orchymynion.

Diſc. Wrth hynny, Syr, y mae efe yn gwrthddywedyd ei hun, a pha fodd y credaf ef? heb law hynny, yn yr unrhyw du dalen y dywaid efe, " Nid oes dim ond buch-
edd dda rydd hawl i ni i ffafr Duw". Ac os felly, beth a wnaf *fi*? beth a ddaw o honof *fi*? Mae'r athrawiaeth yma, Syr, yn ddigon i yrru dyn i anobaith. Yn y llyfr a fenthycciodd y gweinidog i mi, ſef CYFLAWN DDYLEDSWYDD DYN, y mae'r pethau hyn yn cael ei gwir egluro. Lle y gwelaf, mai Criſt raid fod fy nghyfrawn-

der;—hod ffydd ac edifeirwch yn rhôdd Duw, pa rai, fel yr wyf yn goſtyngedig gredu a râd rydd yr Arglwydd i mi. Am yr ymadrodd, *ufudd-dod diragrith*, fe'i ceir ef yn ſafn pob dryg-ddyn, a llawer yn eu twyllo eu humain âg ef: gwir drwŷn cŵyr ydyw, gellir ei gyfaddaſu i gyflwr pob math o ddyn, bydded cynddrwg ag y bo, o blegid y rhan fwyaf o ddynion a daerant fod eu hufudd-dod yn ddiragrith. Gwir ffydd yn Ieſu Grift a wna ddyn yn ddiragrith ufudd mewn gwirionedd; canys ffydd ſydd yn gweithio; trwy gariad. Fe ſgrifennwyd y llyfr, cyflawn, Ddyledſwydd Dyn gan Mr. *Venn*, Gweinidog tra duwiol a dyallus.

Dr. *Op*. Gweinidog dyallus a ddywedaſoch! Ac yn ddigywilydd ſefyll dros eich dywediadau gwyr-gam o'r blaen! cym'rwch fy ngair i, un o'r rhai rhith-yſbrydol yw efe yn ddiammeu, y gŵr ieuangc; nid oes neb ond y cyfryw yn arfer y fath ymadroddion, nac yn credu y cyfryw athrawiaethau.

Diſc. Syr, y mae efe yn Weinidog o Eglwys *Loegr*, yn Wr eglwyſig; ac yr wyf yn dyall fod amryw o'r fath yn yr Eglwys, o wŷr defnyddiol.

Dr. *Op*. Gŵr eglwyſig yn ſiwr! Fe all fod yn Wr eglwyſig, ac er hynny yn rhith-yſbrydol. Mae amryw yn ddiweddar o'r un argraph ag ynteu wedi ymluſgo i'n Heglwys. Yr wyf yn tybied fod y diawl yn yr Eſgobion pan y maent yn ordeinio y fath gymdeithion. Y maent yn waſtad yn crôch-lefain yn erbyn godidawgrwydd y nattur ddynol; gan breſwadio dynion fod yn rhaid iddynt gael eu dychwelyd, eu hadgenhedlu, eu geni-dracheſn;—fod yn rhaid iddynt gael eu hachub yn unig trwy ffydd yn yr Arglwydd Ieſu Grift. Ac y maent yn pregethu cymmaint am ddylanwadau yr Yſbryd Glan, a phe buaſent yn byw yn nyddiau yr Apoſtolion. O'm rhan i, nid wyf yn gweled pa achos ſydd gennym i afloniyddu meddyliau dynion ynghylch y fath bethau: Gwnaed pobl eu dyledſwydd, ac y mae hynny yn ddigon: Beth ſydd gennym ni a wnelom ynghylch *ffydd*? Y modd y mae dyn yn *bucheddu*, ac nid y peth y mae yn ei *gredu*, ai hachub ef. Fe allai un braidd ddychymygu mai rhai o'r rheſ'ny a gyfanſoddodd waſanaeth ein Heglwys a gyfodod oddi wrth y

meirw, canys y mae lleferydd rhagrithiol y cyfryw Eglwyſwyr yn union yr un fath a'r eiddynt hwythau.

Diſc. Yn wîr, Syr, yr wyf fi yn gweled fod ffydd o ganlyniad neillduol, gan fod Criſt yn dywedyd, *Yr hwn a gredo ni ddemmir.* Ac yn ddiammeu, Syr, mae'r llyfr hwnnw yn cyttuno yn hollawl âg Erthyglau a Gwaſanaeth ein Heglwys; yr wyf fi yn barnu fod yn gwbl yn cydſefyll â phroffes yr Awdwr, fod y cyfryw yn Wr Eglwyſig: ac er ei fod ef yn cadarnhâu yn ddiyſgog, mai trwy ffydd yn unig yn yr Arglwydd Ieſu Griſt y gellir derbyn iachawdwriaeth, er hynny nid oes un llyfr yn annog mwy i ſancteiddrwydd nac ynteu. Ac mi a feddyliwn, pe byddai yr Eſgobion yn gyfryw ag y mae'r Apoſtol Paul yn darlunio y dylent fod, yn ei epiſtol cyntaf at Timotheus, iii. 1—7. ac yn ei epiſtol at Titus, 1. 6—9. na byddai ganddynt un gwrthddadl yn erbyn ordeinio y cyfryw rai, na fyddent allan o ffordd eu dyledſwydd o wneuthur felly.

Dr. *Op.* Na ſoniwch wrthyf fi am opiniwnau. Fe ddylai ddyn bregethu oreu ag a allo i foddio ei bobl. Yr wyf fi a'm *plwyfolion* oll o'r un feddyliau am grefydd, am ddim ar a wn i i'r gwrthwyneb; o blegid y mae gennym yn gyffredin ryw beth arall i chwedleua yn ei gylch pan ymgyfarfyddom ynghyd. Yr Eglwys yw'r lle am gregrefydd; a dywed'd pobl y peth a fynnont ynghylch crefydd, yr wyf fi wedi penderfynu; ac ni's gall yr holl fyd mo'm troi. Mae fy nheulu i o'r grefydd yma er's oeſoedd, ac ni welaf fi un rheſwm i newid fy marn. Myfi a af i'r nefoedd fy ffordd fy hun, ac a gymmeraf gyd â mi gynnifer o fy mharaidd ac a fo'n dewis fy nghanlyn. Moliant i'r Gŵr goreu, mae gennyf Galon dda, ac nid wyf yn ofni dim. Mae fy mhlwyfolion a minnau yn byw yn heddychol o hyd er pan wyf Weinidog iddynt, ac yr wyf yn gobeithio y byddwn farw felly; pa fodd bynnag, ni wnaf fi ddim o'm bodd a fo'n rhwyſtr i hynny. Yr ydych chwi a minnau, y gŵr ieuangc, o wahanol farnau; nid yw yn atteb un diben i mi ymddiddan yn hwy â chwi ynghylch Crefydd. Boed i chwi a'r Perſon *Efengylwr* fod yn gadwedig, yn eich ffordd eich hunain, a minnau a âf i'r nefoedd fy ffordd innau. Y mae i chwi gyflawn

groeſo o'r holl gynghorion a roddais i chwi; ond os ydych yn gweled eich mympwy eich hun yn well, cymmerwch ef: eithr yr wyf yn attolwg i chwi na aflonyddoch neb o fy mhlwyfolion â'ch barnau gwŷr-gam. Felly byddwch wych.

Hanes wirioneddol am ryfeddol droedigaeth

TAFARNWR.

EI FFYRDD MOR ANOLRHEINADWY YDYNT! St Paul.

Mor ogoneddus yw modrwyau auraidd cadwyn Rhagluniaeth wedi eu cyd gyſſylltu! Yr hyn mae'r anghredadyn yn ei wawdio: mae'r credadyn yn ei ſynnu a rhyfeddu.

Yr hanes ganlynol a ellir ei Sicrhau gan lawer a 'i clywodd o enau yr hwn yw ei ſylwedd; ſydd yn awr wedi myned yn ddiangol at Dduw i ogoniant.

Pan aeth y Parchedig Mr. ——— i'r wlâd i weinidogaethu, torfaoedd mawrion o bobl a ymgasglaſant i wrando arno o'r Trefydd a'r Pentrefydd cymmydogaethol; yn un o'r rhai'n yr oedd yn byw hên DAFARNWR, yr hwn oedd arfer a bod yn lled rŷdd gyd a'i ddiod gadarn, fel'r oedd yr arwyddion i'w gweled yn amlwg yn ei wynebpryd. Clywodd ynteu ſôn am y torfaoedd oedd yn myned i wrando ar y gŵr hwn, o blegid fod llawer o gyrchu atto o'r Dref lle'r oedd ef yn byw, ond bob amſer byddai ſe yn tyngu yn ofnadwy na chaid mo hono ef byth ymhlith yr ynfydion oedd yn rhedeg i'r droi yn Fethodiſtiaid: Ac yn wîr yr oedd hynny yn hollol mor groes i'w ymarferiad ac oedd i'w alwedigaeth, ſef ei gael ymyſg y rhai ſy'n canlyn Efengyl Criſt; ond wrth glywed am y dull-hyfryd a phleſerus o ganu a arferid yn yr Addoliad, (yr hyn oedd yn cael ſiarad am dano gan y cyffredin,) ennyniodd hynny chwant arno ynteu i fyned i wrando ar y canu, ond gyd a rhyw lŵ arswydus na wrandawai 'ſe byth un gair o'r Bregeth.

Un Sabbath ar ôl ciniaw yn lle eiſtedd i yfed gyd a'i gyfeillion, efe a ddaeth i'r Addoliad Prydnawnol, yn unig i glywed y canu yno, gyd a chyflawn fwriad i gadw ei addewid ſef cau allan bob gair o'r bregeth.

Yr oedd yn ddyn tew o gorpholaeth, ac fel'r oedd yn ddiwrnod hâf poeth, 'ſe ddaeth i mewn yn llawn chwŷs,

a thrwy anhawſtra cafodd ſyned i* Eiſteddle gûl; pan ddarfu ir dyrfa ganu'r Hymn o flaen y bregeth, yr hyn a wrandawodd gyd ag aſtudrwydd mawr, 'ſe a wyrodd ymlaen, a rhoddi ei benniloedd ar yr Eiſteddle, i fod yn ſicr i gau ei gluſtiau oddiwrth y bregeth a'i fyſedd. Ni bu nemawr o funudau yn yr yſtym hyn cyn darfod gweddio, ac i'r bregeth ddechreu, gyd a difrifol alwad ar gydwybodau'r gwrandawyr o'r angenrheidrwydd i wrando ag yſtyried y pethau a berthynant i'w tragwyddol heddwch, a'r gweinidog yn traethu wrthynt y geiriau "yr hwn ſydd ganddo gluſtiau i wrando, gwrandawed" gyd a neillduol ſobrwydd ag awdurdod, y funud cyn ir geiriau gael eu llafaru, gwybedyn a ddisgynodd ar drwyn y TAFARNWR, gan ei bigo yn annyoddefol, gyd a brŷs 'fe a dynnodd un o'i fyſedd oddiwrth ei gluſt i ddanfon ymaith yr ymwelydd colynnog, a'r *fyment* honno y geiriau "*yr hwn ſydd ganddo gluſtiau i wrando, gwrandawed*" yn cael eu llafaru gyd a mawr ſobrwydd, aethant i mewn i'r gluſt oedd yn agored fel Taran ddychrynllyd. Tarawſant ef gyd a gallu anwrthwynebol, fel y cadwodd ei law rhag dychwelyd yn ôl at ei gluſt; wrth deimlo effeithiau oedd yn hollol ddieithr iddo ef erioed o'r blaen, yn fuan 'fe a dynnodd ei fŷs oddiwrth y gluſt arall, ac a wrandawodd y rhan ganlynol o'r bregeth gyd a'r aſtudrwydd dyfnaf.

Y diwrnod hwnnw oedd yn ddechreu dyddiau iddo ef; o'r funud honno cyfnewidiad amlwg a weithiwyd ynddo, yr hyn ni allai ei gyfeilliongynt lai na fylwi arno gyd a ſyndod, o'r dydd hwnnw allan byth ni ddychwelodd at 'r un o'i ymarferiadau o'r blaen, ni welwyd ef mwy yn feddw, na'i glywed yn tyngu, ond dechreuodd weddio, a gwrando gair Duw; tros amryw o flynyddoedd 'fe a gerddai trwy bob tywydd chwe' milltir o ffordd i'r Lle y derbyniodd ef gyntaf wybodaeth gadwedigol am BRYNWR, a lachawdwriaeth trwy ei ENW Ef. Ar ôl o gwmpas deunaw mlynedd o rodio yn ffyddlon ag agos at Dduw, efe a fu farw yn Llawenhau mewn gobaith bywyd tragwyddol, gan fendithio yr hwn a ddanfonodd y gwaelaf o'i greaduriaid i agor ei gluſtiau i wrando addyſg.

* *Seat.* VERITAS.

13 DE 67

TERFYN.